

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap

Dyddiad yr ymweliad 23 Chwefror 2010

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk

Cynnwys

	Rhif Tud.
1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau: Cryfderau, meysydd i'w gwella ymhellach a chamau y mae angen eu cymryd	3
Yr amgylchedd cyffredinol	3
Yr amgylchedd	3
Trin a gwaredu dillad gwely a llieiniau, gwastraff ac eitemau miniog	5
Cyfarpar a storffeydd	6
Gwybodaeth ac arferion gwaith y staff	6

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan gleifion a'r cyhoedd ledled Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra sefydliadau gofal iechyd ledled Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, ac fe'i defnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi manau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr wirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau yn seiliedig ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk

Ymweliad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1.5 Ar 23 Chwefror, ymwelodd AGIC ag Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnal archwiliadau glanweithdra ar hap o'r manau canlynol:

- Ward Clwyd, Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug.
- Ward Cunliffe, Ysbyty Maelor Wrecsam.
- Ward Bonney, Ysbyty Maelor Wrecsam.
- Ward Mason, Ysbyty Maelor Wrecsam.
- Ward Glyndŵr, Ysbyty Maelor Wrecsam.
- Ward Erddig, Ysbyty Maelor Wrecsam.

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymhell camau gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd baratoi cynllun gwella i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n destun pryder, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

2. Canfyddiadau: Cryfderau, meysydd i'w gwella ymhellach a chamau y mae angen eu cymryd

Fel rhan o'r gwaith maes ar gyfer yr *Adolygiad Cymru Gyfan o Ofal a Rheolaeth Cleifion sy'n Dioddef o'r Dolur Rhydd a Chwydu* a gynhaliwyd gennym ym mis Ebrill 2009, ymwelwyd ag Ysbyty Maelor Wrecsam a chodwyd pryderon ynglŷn â glanweithdra a rheoli heintiau. Rhoddwyd hysbysiad gweithredu ar unwaith i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, fel ag yr oedd bryd hynny, yn mynnu ei bod yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd pryder. Ymwelwyd â'r sefydliad unwaith eto ym mis Awst 2009 a gwelsom fod rhai gwelliannau wedi'u gwneud; dywedasom hefyd wrth y Bwrdd Iechyd y byddem yn cynnal ymweliad arall fel rhan o'n rhaglen o archwiliadau glanweithdra dirybudd ar hap.

Yr Amgylchedd Cyffredinol

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Cymunedol yr Wyddgrug yn dderbyniol. Gwelwyd nad oedd annibendod nac eitemau amhriodol yn y coridorau cyhoeddus a'r llwybrau cerdded.

Yr Amgylchedd

Canfuom fod safon y glanweithdra yn Wardiau Cunliffe, Bonney, Mason ac Erddig yn dda, a chanfuwyd bod safon glanweithdra Wardiau Clwyd a Glyndŵr yn dderbyniol.



- Sylwyd ar rai materion cynnal a chadw yn y wardiau yr ymwelwyd â hwy, yn enwedig Ward Erddig, lle yr oedd difrod i'r lloriau yng nghilfachau'r cleifion.



- Roedd comodau glân yn yr holl wardiau heblaw am Ward Glyndŵr, lle y gwelsom gomodau nad oeddynt wedi'u glanhau i safon dderbyniol. Dylid sefydlu dull cyson o lanhau comedau ar draws y sefydliad, a dylid hefyd osod arwydd clir ar bob comôd unigol i ddangos ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.



- Roedd llwch ar y gwyntyllau mewn nifer o'r wardiau yr ymwelwyd â hwy. Dylai'r staff sicrhau bod gwyntyllau'n cael eu glanhau'n rheolaidd.



- Roedd eitemau amhriodol yn cael eu cadw mewn nifer o'r ystafelloedd ymolchi yn y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Dylid symud yr eitemau hyn a'u cadw mewn ystafell briodol a phenodol.



- Roedd blychau ac eitemau eraill yn creu annibendod mewn nifer o'r ystafelloedd clinigol a'r ystafelloedd storio yn y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Dylid symud y rhain a'u gosod uwchlaw lefel y llawr er mwyn sicrhau y gellir glanhau'r ystafelloedd hyn yn effeithiol.

Dyweddod y staff fod y trefniadau glanhau domestig yn ddigonol, ac ar y cyfan, ystyrid bod gwell ymateb i'w gael gan y staff glanhau na phan gynhaliwyd ein hymweliad blaenorol. Fodd bynnag, fe all fod yn anodd cael cymorth staff glanhau gyda'r nos ac yn ystod y nos. Mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod digon o adnoddau glanhau ar gael bob amser. Nid oedd yn eglur ychwaith pa un a lanheir yn fwy aml yn ystod achos o haint ar y wardiau. Pan geir achosion o'r dolur rhydd a chwydu mae angen glanhau'n fwy trylwyr, gan gynnwys glanhau tai bach yn fwy aml, a dylid sicrhau bod staff ar gael i wneud y gwaith hwn.

Roedd cypyrddau cyffuriau heb eu cloi yn yr ystafelloedd clinigol yn Wardiau Bonney, Mason a Cunliffe; codwyd y mater hwn ar unwaith gyda staff y ward. Dylai'r staff sicrhau bod pob cwpwrdd sy'n cynnwys meddyginiaeth neu sylweddau peryglus ar glo bob amser.

Trin a gwaredu dillad gwely a llieiniau, gwastraff ac eitemau miniog

Roedd gwastraff yn cael ei drin a'i waredu'n briodol yn yr holl wardiau yr ymwelwyd â hwy.

Roedd dillad gwely a llieiniau'n cael eu cadw a'u gwaredu'n briodol yn yr holl wardiau yr ymwelwyd â hwy. Roedd gan bob un o'r wardiau gyflenwad o ddillad gwely a llieiniau a gedwir ar droliâu, a chludir y rhain i'r ward a'u hail-lenwi bob dydd. Mae'r troliâu hyn wedi'u lleoli ym mhrif goridor y ward a chaiff dillad gwely a llieiniau eu storio'n briodol cyn eu gwaredu.

Roedd Wardiau Clwyd, Erddig a Glyndŵr yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.

Fodd bynnag, roedd biniau eitemau miniog heb ddyddiad na llofnod arnynt i'w cael yn Wardiau Mason a Cunliffe. Dylai'r staff sicrhau bod pob cynhwysydd eitemau miniog wedi'i labelu'n gywir.

Ar Ward Bonney gwelwyd bin eitemau miniog a oedd wedi'i orlenwi, a gallai hyn arwain at ddamweiniau gyda nodwyddau. Dylai'r staff sicrhau bod pob bin eitemau miniog yn cael ei newid pan fo angen.

Cyfarpar a storfeydd

Roedd y cyfarpar ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy yn lân ar y cyfan, ond yn wardiau Mason a Glyndŵr gwelwyd bod llwch ar y troli dadebru a'r pypiau IV. Roedd trefniadau glanhau gan nyrsys wedi'u sefydlu ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy, ond nid oedd yn ymddangos bod dull cyson ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd. Dylid sefydlu a chofnodi system lanhau gadarn ac eglur ar gyfer y sefydliad cyfan fel bod y staff yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth, a phryd.

Roedd nifer o standiau diferwyr ar Ward Mason mewn cyflwr gwael a gwelwyd bod tâp gludiog wedi'i osod ar rai ohonynt. Dylid cael gwared ar y tâp gludiog hwn gan ei fod yn creu'r posibilrwydd o halogiad oherwydd nad oes modd glanhau'r eitemau yn briodol.

Gwybodaeth ac arferion gwaith y staff

Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y wardiau; fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn cael gwybod am y canlyniadau. Dylid cynnal archwiliadau hylendid dwylo unwaith y mis a dylai'r staff fod yn rhan o'r archwiliadau hyn a chael gwybod am y canlyniadau fel y gellir rhoi sylw i unrhyw faterion mewn modd prydlon.



- Dangosir canlyniadau archwiliadau hylendid dwylo ar yr hysbysfwrdd ar Ward Bonney yn ogystal â gwybodaeth arall i gleifion, ymwelwyr a'r staff. Rydym yn ystyried bod hwn yn arfer da.



- Roedd yr arwyddion ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy wedi gwella'n gyffredinol ers ein hymweliad diwethaf. Fodd bynnag, roedd rhai arwyddion yn parhau i fod yn ddryslyd. Gwelwyd hefyd nad oedd arwyddion wedi'u gosod ym mhob ward i rybuddio staff ac ymwelwyr o'r angen am nyrso ataliol. Dylid sefydlu dull cyson ynglŷn â hyn ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer o wardiau hefyd yn cynnal archwiliadau amgylcheddol; fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn cael gwybod am y canlyniadau. Dylid cynnal archwiliadau amgylcheddol unwaith y mis a dylai'r staff fod yn rhan o'r archwiliadau hyn a chael gwybod am y canlyniadau fel y gellir nodi unrhyw faterion a rhoi sylw iddynt mewn modd prydlon.

Ar y cyfan, roedd gan y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wybodaeth dda am reoli heintiau. Gwelwyd bod arferion hylendid dwylo yn dderbyniol a bod gan y staff wybodaeth dda ynglŷn â pha bryd y dylent lanhau eu dwylo a phryd y dylent wisgo menig.

Pan fo'r staff yn glanhau gwaed neu hylifau'r corff sydd wedi gollwng, defnyddir cyfrwng rhyddhau clorin wedi'i wanhau i sicrhau bod lefel gwanhad y diheintydd yn gywir. Fodd bynnag, nid oedd siartiau gwanhau a photeli gwanhau penodol ar gyfer y cyfrwng rhyddhau clorin bob amser ar gael i'r staff ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Dylid gosod arwyddion eglur yn hysbysu'r staff am ba lefel gwanhad y dylid ei defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o lanhau, a dylid darparu potel wanhau benodol ar gyfer pob ward.

Pan dderbynnir claf sydd â haint neu pan fydd claf yn datblygu haint, dylid ei wahanu oddi wrth gleifion eraill cyn gynted â phosibl er mwyn atal yr haint rhag cael ei drosglwyddo iddynt. O drafod â'r staff, roedd yn amlwg bod cleifion â haint yn cael blaenoriaeth wrth neilltuo'r ystafelloedd ochr, ond nid oedd canllawiau eglur ar gael i'r staff gyfeirio atynt pan fo angen. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod canllawiau ar gael ynglŷn â'r amgylchiadau pryd y dylid defnyddio ystafelloedd ochr, a dylid rhoi'r canllawiau hyn i'r staff.

Os ceir nifer o gleifion ar ward sy'n dioddef o Norofeirws neu *Clostridium difficile* dylid cau'r ward i gleifion newydd er mwyn atal yr haint rhag lledaenu. Er bod y sefydliad yn cydnabod pa mor bwysig yw cadw wardiau ar gau am 48-72 awr ar ôl i symptomau'r cleifion ddod i ben os ceir achosion o Norofeirws a *Clostridium difficile*, nid yw hyn yn digwydd bob amser y tu allan i oriau arferol. Er ei bod yn anodd cadw wardiau ar gau pan fo'r galw am welyau yn uchel, gellid peri i achosion o haint, yn enwedig achosion o Norofeirws, barhau am gyfnod hwy trwy agor ward yn gynnar, wrth i gleifion newydd sydd mewn perygl o ddal haint gael eu cyflwyno i'r feirws. O ganlyniad, heblaw am yr effaith amlwg ar iechyd yr unigolion hynny yr effeithir arnynt, mae cleifion yn gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy a gallai'r staff ddal yr haint hefyd.